Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

# CO24036 Rhodfa Llanrhymni (Croesfan Sebra Ddyrchafedig)

# Adroddiad Ymgynghoriad

# Awst 2025

## Cyflwyniad

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnig Cyngor Caerdydd i ymgymryd â gwaith gwella’r briffordd ar Rodfa Llanrhymni yng nghyffiniau Canolfan Hamdden y Dwyrain. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 28/05/2025 a 18/06/2025.

## Gweithgareddau Ymgynghori

Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol i hyrwyddo'r ymgynghoriad:

- Dosbarthu llythyrau i eiddo yng nghyffiniau'r cynllun
- Hysbysiadau safle yng nghyffiniau'r cynllun
- E-bost at randdeiliaid ac ymgyngoreion statudol
- Gwybodaeth ar wefan y Cyngor

## Canlyniadau’r Ymgynghoriad

**8:** Derbyniwyd ymatebion unigol yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn, mae dadansoddiad o'r ymateb hwn fel a ganlyn:

**3:** Wedi gwrthwynebu a rhoi sylwadau / awgrymiadau ychwanegol.

**4:** Wedi rhoi sylwadau / awgrymiadau ond heb ddweud a ydynt yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynnig.

**1:** Yn cefnogi’r cynnig.

## Canlyniad yr Ymgynghoriad

O ystyried yr ymgynghoriad cyhoeddus cynigir **bwrw ymlaen** â'r cynnig fel y dangosir ar y cynllun atodedig.

Un gwelliant o'r cynllun a gynigiwyd yn wreiddiol yw cyflwyno bolardiau ar droedffordd Rhodfa Llanrhymni i'r gorllewin o Kewstoke Place (*fel y dangosir ar Hysbysiad Safle 4 o 5).*

**Materion Penodol**

Mae’r materion penodol a godwyd trwy'r ymgynghoriad wedi’u nodi isod ynghyd ag ymateb y Cyngor. Lle mae'r un mater wedi'i godi gan ymatebydd gwahanol, mae'r rhain wedi'u grwpio gyda'i gilydd.

| Mater | Ymateb |
|---|---|
| Codwyd pryderon y byddai datblygu cyffyrdd Worle Avenue a British Legion Drive yn creu problemau diogelwch ychwanegol, gan fod cerbydau eisoes yn parcio yn agos at y gyffordd. Soniwyd y dylid cyflwyno cyfyngiadau parcio o gwmpas y cyffyrdd hyn. | Nid oes unrhyw gyfyngiadau parcio wedi'u cynnig fel rhan o'r cynllun hwn. Dylid anfon unrhyw geisiadau am Orchmynion Rheoleiddio Traffig (GRhT) at y Tîm GRhT y gellir cysylltu â nhw yn www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/Gorchmynion-Traffig/ |
| Nododd sylw fod preswylydd wedi gofyn am Stryd Ysgol ar Worle Avenue yn flaenorol, oherwydd y parcio ar gyfer Ysgol Bryn Hafod, ac a ellid ailymchwilio i hyn. | Mae gan Ysgol Gynradd Bryn Hafod Stryd Ysgol ar waith ar strydoedd yng nghyffiniau'r ysgol. Diben Strydoedd Ysgol yw cyfyngu ar draffig cerbydau a pharcio ar ffyrdd yng nghyffiniau ysgolion. Mae Worle Avenue yn gymharol bell o'r ysgol ac ni fyddai Stryd Ysgol yn briodol yn y lleoliad hwn. |
| Dylid adleoli'r Groesfan Sebra Ddyrchafedig arfaethedig rhwng Lynton Place a Lynton Terrace ymhellach i'r gogledd, yn agosach at Ganolfan Hamdden y Dwyrain a chyffordd Heol Ball. | Er y byddai lleoliad yn agosach at Ganolfan Hamdden y Dwyrain wedi bod yn fwy addas ar gyfer y groesfan arfaethedig hon, nid oedd hyn yn bosib oherwydd cynllun presennol y rhan hon o’r briffordd. Mae rhodfeydd presennol ar hyd ochr orllewinol Rhodfa Llanrhymni sy'n cyfyngu ar ble y gellir gosod croesfan sebra. Mae lloches fysus presennol yn y lleoliad hwn hefyd. Osgoir cyflwyno croesfannau sebra yn agos at safleoedd bysus am resymau diogelwch, oherwydd os yw bws yn llonydd mewn safle bws, gall hyn gyfyngu ar welededd cerddwyr a allai fod yn defnyddio'r groesfan sebra. |
| Soniodd nifer o sylwadau y byddai cyflwyno Croesfan Sebra Ddyrchafedig yn atal preswylwyr rhag gallu parcio ger eu heiddo. | Dim ond nifer fach o leoedd parcio fydd yn cael eu dileu gan y croesfannau sebra ddyrchafedig a'r marciau ffyrdd igam-ogam cysylltiedig. Mae hyn yn angenrheidiol i sicrhau nad yw cerddwyr sy'n defnyddio'r groesfan yn cael eu cuddio gan geir wedi'u parcio, a'u bod yn weladwy i yrwyr. Cyfrifoldeb gyrwyr fyddai parcio eu cerbydau lle mae'n ddiogel ac yn gyfreithlon gwneud hynny. |
| Codwyd pryderon am y goleuadau croesi yn fflachio i mewn i ffryntiad eiddo cyfagos. | Gan y byddai’r goleuadau croesi’n agos at eiddo preswyl, caiff gorchuddion eu gosod ar y goleuadau croesi arfaethedig. Gorchuddion yw’r rhain sy’n mynd o gwmpas y goleuadau croesi ac yn cyfyngu ar ledaeniad y golau wrth gynnal gwelededd y goleuadau i yrwyr sy'n agosáu at y lleoliad croesi. |
| Derbyniwyd cais ychwanegol am groesfan i gerddwyr ger cylchfan Rhodfa Countisbury. | Mae'r cynllun arfaethedig wedi'i ganolbwyntio o gwmpas Canolfan Hamdden y Dwyrain ac mae Rhodfa Countisbury y tu allan i gwmpas y cynllun hwn. |

| | |
|---|---|
| Gofynnodd un sylw pryd y bydd y gwaith yn dechrau ar y Ffordd Gyswllt ar gyfer y Ffordd Osgoi Ddwyreiniol ar waelod Heol Ball. | Nid yw hyn yn dod dan gylch gorchwyl y Cynllun Teithio Llesol a Diogelwch ar y Ffyrdd ac felly nid yw'n rhan o'r ymgynghoriad hwn. |
| Derbyniwyd sylwadau yn nodi nad oedd strydoedd yn cael eu glanhau'n ddigonol, ac y bydd cyflwyno croesfan sebra yn arwain at gynnydd mewn sbwriel. | Nid oes unrhyw reswm pam y byddai cyflwyno croesfan sebra ddyrchafedig yn arwain at gynnydd mewn sbwriel. Os oes gan drigolion unrhyw bryderon ynglŷn â sbwriel, dylent roi gwybod trwy wefan y Cyngor: Sbwriela |
| Soniodd un sylw y dylid defnyddio'r arian hwn i drwsio ceudyllau a chynnal a chadw ffyrdd. | Bydd y pecyn arfaethedig o fesurau'n helpu i greu llwybrau cerdded diogel a chreu amgylchedd priffordd mwy diogel, trwy arafu cerbydau, a gosod croesfannau ffurfiol i gerddwyr. Bydd hyn yn annog mwy o blant i gerdded i'r ysgol, gan gynyddu lefelau gweithgarwch a fydd yn cael manteision iechyd cadarnhaol. Mae'r cynnig hwn yn cael ei ddatblygu gan ddefnyddio cyllid cyfalaf o Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru a chyfraniad o'r gyllideb Addysg ar gyfer yr ysgol. Ni ellir defnyddio'r cyllid hwn i wneud gwaith cynnal a chadw fel atgyweirio ceudyllau. |